Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Cefndir

# PC32: PAPUR CEFNDIR 32
# Ardaloedd Tirwedd Arbennig

Cynllun i'w archwilio

gan y cyhoedd

Hydref 2025

CONWY

**This document is also available in English.**

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor yn: www.conwy.gov.uk/cdlln Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445/ 575124 / 574232.

**Gellir darparu'r ddogfen hon ar Gryno Ddisg, yn electronig neu mewn print bras a gellir ei chyfieithu i ieithoedd eraill. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.**

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

**Sir Conwy, yr amgylchedd iawn i fyw, gweithio a darganfod**

**Conwy County, the right environment to live, work and discover**

# Cynnwys

**Tudalen**


**Rhestr Termau** ........ 4
**1. Cyflwyniad** ........ 5
**3. Cyfiawnhad dros bob Ardal Tirwedd Arbennig** ........ 15
**4. Pwrpas Polisi NTE/4** ........ 21
**5. Cysondeb ag Awdurdodau Cyfagos** ........ 22
**6. Casgliadau a Chrynodeb** ........ 24
**7. Darllen pellach a gwybodaeth** ........ 24
**Atodiad 1** ........ 25

## Rhestr Termau

| | |
|---|---|
| **PC** | Papur Cefndir |
| **CBSC** | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| **CCGC** | Cyngor Cefn Gwlad Cymru |
| **ACT** | Ardal Cadwraeth Tirwedd |
| **CDLl** | Cynllun Datblygu Lleol |
| **PCC** | Polisi Cynllunio Cymru |
| **ACA** | Ardal Cadwraeth Arbennig |
| **ATA** | Ardal Tirwedd Arbennig |
| **APCE** | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri |
| **AGA** | Ardal Gwarchodaeth Arbennig |
| **SoDdGA** | Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig |
| **CDU** | Cynllun Datblygu Unedol |
| **LlC** | Llywodraeth Cymru |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Mae hwn yn un o gyfres o Bapurau Cefndir sydd yn gysylltiedig â’r ddogfen Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLIN) 2022-2033. Pan fydd y Cyngor yn cyhoeddi ei Gynllun, mae’n rhaid iddo hefyd egluro sut mae’r polisi wedi’i lunio ar sail y dystiolaeth sydd ar gael i’r Cyngor ar y pryd. Mae'r papur cefndir hwn yn ddiweddariad i PC27 a gefnogodd y CDLI 2007-2022 a nododd y fethodoleg a'r cyfiawnhad, felly nid yw'n ailadrodd yr hyn sydd yn y ddogfen honno. Mae hyn yn nodi'r rhesymeg a'r newidiadau ar gyfer y dynodiadau Ardal Tirwedd Arbennig (ATA) a nodir o dan Bolisi NE/4 ac a ddangosir ar y Map Cynigion a sut maent yn ymwneud â haenau a pholisi cysylltiedig eraill a ddiweddarwyd.

1.2 LANDMAP yw'r enw a roddir i broses asesu a gwneud penderfyniadau tirwedd sy'n seiliedig ar gyfrifiadur a ddyfeisiwyd gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC), Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) bellach a Grŵp Partneriaeth Tirwedd Cymru (sy'n cynnwys y prif gyrff llywodraeth leol yng Nghymru o lefelau lleol a chanolog). Mae LANDMAP yn sefyll am Broses Asesu a Gwneud Penderfyniadau Tirwedd, ac mae wedi'i gynllunio i gynorthwyo gwneud penderfyniadau dros ystod o ddisgyblaethau, er enghraifft, cynllunio datblygu a rheoli datblygu, gwella amgylcheddol, bioamrywiaeth, coedwigaeth a datblygu gwledig. Mae pum haen agwedd wedi'u gwerthuso sy'n ffurfio'r set lawn o wybodaeth LANDMAP. Y rhain yw:

**Gweledol a Synhwyrol:** Mae'r haen agwedd hon yn nodi'r rhinweddau tirwedd hynny a ganfyddir trwy'r synhwyrau. Mae'n delio â phriodoleddau ffisegol unigol tirffurf a gorchudd tir, yn ogystal â'u patrymau dosbarthiad gweledol a nodweddion synhwyraidd, a'r perthnasoedd rhyngddynt mewn ardal benodol.

**Cynefinoedd Tirwedd:** Mae'r haen agwedd hon yn edrych ar ddosbarthiad llystyfiant a chynefinoedd a'r sail ar gyfer ecoleg tirwedd.

**Tirwedd Ddiwylliannol:** Mae'r haen agwedd hon yn ystyried y berthynas sy'n bodoli rhwng pobl a lleoedd; sut mae pobl wedi rhoi ystyr i leoedd, sut mae'r dirwedd wedi llunio eu gweithredoedd a sut mae eu gweithredoedd wedi llunio'r dirwedd.

**Tirwedd Ddaearegol:** Mae'r haen agwedd hon yn astudio daeareg, geomorffoleg a hydroleg Conwy.

**Tirwedd Hanesyddol:** Mae'r haen agwedd hon yn canolbwyntio ar sut mae safleoedd archaeolegol a hanesyddol yn ymwneud â'i gilydd ac â'r dirwedd o'u cwmpas.

1.3 Mae LANDMAP yn cynnig sylfaen dystiolaeth ar gyfer nodi Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA) ac fel sail ar gyfer asesiadau effaith tirwedd. Fel system fapio, mae LANDMAP yn caniatáu casglu, trefnu a gwerthuso gwybodaeth am dirwedd yn set ddata gyson yn genedlaethol. Cesglir gwybodaeth mewn ffordd strwythuredig a thrylwyr sy'n anelu at fod mor wrthrychol â phosibl. Mae ei gronfa ddata yn cynnwys gwybodaeth gymharol wrthrychol, fel math o graig a gwybodaeth hanesyddol, a gwybodaeth fwy goddrychol, fel ymatebion synhwyraidd a dehongliad diwylliannol. Gellir cyfuno gwybodaeth LANDMAP hefyd â gwybodaeth gymdeithasol-economaidd gyd-destunol.

1.7 Mae defnyddio dynodiadau anstatudol i amddiffyn ardaloedd o dirwedd, fel ATA, wedi bod yn offeryn polisi o fewn system gynllunio'r DU ers tro byd. Fe'u gwelir fel ffordd o amddiffyn tirweddau sensitif ac wrth ddatblygu dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o'r nodweddion a'r rhinweddau hynny sy'n rhoi ymdeimlad o le i ardaloedd lleol.

1.8 Mae Polisi Cynllunio Cymru 12 ym mharagraff 6.3.12 yn cefnogi defnyddio LANDMAP fel sail ar gyfer asesu tirwedd sy'n cwmpasu unigrywiaeth leol, ATA a dyluniad. Ystyrir, wrth ddiffinio Ardaloedd Tirwedd Arbennig (ATA) gan ddefnyddio LANDMAP, y gellir rheoli datblygiadau a dyluniadau newydd yn unol â hynny trwy gyfuniad o bolisïau cysylltiedig ac ystyriaethau tirwedd eraill.

1.9 Ystyrir bod rolau posibl ATA yn cynnwys:

- Cynyddu dealltwriaeth a chydnabyddiaeth o dirweddau gwerthfawr yn lleol sy'n bwysig am eu cymeriad, eu rhinweddau a'u synnwyr o le nodedig.
- Mesur rheoli datblygu ychwanegol sy'n benodol i ddiogelu tirwedd lle gellid defnyddio amcanion ATA fel prif reswm dros wrthod datblygiadau amhriodol.
- Dylanwadu ar gynllunio tirwedd cadarnhaol o fewn yr ATA. Er enghraifft, i gynhyrchu canllawiau dylunio ar gyfer datblygiadau i fod yn gydnaws â chymeriad y dirwedd neu i'w gwella neu i dargedu grantiau tuag at warchod nodweddion tirwedd arbennig.

1.10 Mae'r mapiau canlynol yn nodi'r ATA yn unol â Mapiau Cynigion y CDLl Newydd. Ni fu unrhyw newidiadau i'r fethodoleg nac ni fu newidiadau sylfaenol i'r mapiau, fodd bynnag, bu diweddariadau i ddarparu ar gyfer cywirdeb haenau a gorgyffwrdd â dynodiadau eraill.


Map 1 Ardaloedd Tirwedd Arbennig Conwy
Conwy Special Landscape Areas
Esboniad i'r map
Map legend
Parc Cenedlaethol Eryri
Eryri National Park
Ffin CBSC
CCBC boundary
Ardal tirwedd arbennig
Special landscape area
Settlement boundaries
Ffiniau aneddiadau
SSSI
SAC
SPA
Ardaloedd wedi'u rhag-asesuar gyfer ynni'r gwynt
Pre-assessed areas for wind energy
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025 Arolwg Ordnans AC0000809654
Mae telerau ac amodau'n gysylltiedig â defnyddio'r data hwn.
© Crown copyright and database rights 2025 Ordnance Survey AC0000809654
Use of this data is subject to terms and conditions..

# Map 2 - SLA1 Y Gogarth a Phenrhyn Creuddyn / Great Orme and Creuddyn Peninsula



# Map 3 - SLA2 Rhyd y Foel i Abergele / Rhyd y Foel to Abergele



# Map 4 - SLA3 Dyffrynnoedd Elwy ac Aled / Elwy and Aled valleys




Map 5 - SLA4 Hiraethog
Esboniad i'r map
Map legend
Parc Cenedlaethol Eryri
Eryri National Park
Ardal tirwedd arbennig
Special landscape area
Settlement boundaries
Ffiniau aneddiadau
SSSI
SAC
Ardaloedd wedi'u rhag-asesuar gyfer ynni'r gwynt
Pre-assessed areas for wind energy
© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025 Arolwg Ordnans AC0000809654
Mae telerau ac amodau'n gysylltiedig â defnyddio'r data hwn.
© Crown copyright and database rights 202 Ordnance Survey AC0000809654
Use of this data is subject to terms and conditions.
LLANRWST
Gwytherin
MYNYDD HIRAETHOG
Pentrefoelas
CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

# Map 6 - SLA5 Cerrigydrudion a choridor yr A5 / Cerrigydrudion and A5 corridor



# Map 7 - SLA6 Dyffryn Conwy / Conwy valley




© Hawlfraint y Goron a hawliau cronfa ddata 2025 Arolwg Ordnans AC0000809654
Mae telerau ac amodau'n gysylltiedig â defnyddio'r data hwn.
© Crown copyright and database rights 202 Ordnance Survey AC0000809654
Use of this data is subject to terms and conditions.

2.11 Yr ardaloedd a ddynodwyd yn Ardaloedd Tirwedd Arbennig yw:

**1) Y Gogarth a Phenrhyn y Creuddyn**

**2) Rhyd-y-Foel i Abergele**

**3) Dyffrynnoedd Elwy ac Aled**

**4) Hiraethog**

**5) Cerrigydrudion a choridor yr A5**

**6) Dyffryn Conwy**

# 3. Cyfiawnhad dros bob Ardal Tirwedd Arbennig

## 3.1 Y Gogarth a Phenrhyn y Creuddyn

| |
|---|
| **Angen**<br>Mae'r ardal yn dirwedd bwysig yn lleol ac mae'n cynnwys 4 haen eithriadol a dwy haen uchel felly mae o gymaint o arwyddocâd yn y cyd-destun lleol fel ei bod yn deilwng o'i hadnabod fel Ardal Tirwedd Arbennig. Mae dynodiadau Ewropeaidd eraill gan gynnwys Ardal Cadwraeth Arbennig y Gogarth, Ardal Cadwraeth Arbennig Coed Penrhyn y Creuddyn ac ardaloedd o SoDdGA, ond mae'r Cyngor yn ystyried bod amddiffyniad effeithiol o ardaloedd o amgylch yr Ardaloedd Tirwedd Arbennig fel tirwedd bwysig yn lleol ac yn ategu'r dynodiadau eraill hynny. Mae'r ardaloedd y tu allan i ffiniau'r aneddiadau hefyd wedi'u hamddiffyn rhag mewnlenwi a datblygiad gwasgaredig a allai fod yn anoddach eu hamddiffyn heb Ardal Tirwedd Arbennig neu ddynodiad tebyg.<br><br>Mae'r math o dirwedd yn brin yn lleol ac yn rhanbarthol. Felly mae gofyniad i ddiogelu cadwraeth tirwedd o brinder nodedig sy'n ychwanegu at unigrywiaeth ac amrywiaeth lleol neu ranbarthol.<br><br>Mae dynodi fel Ardal Tirwedd Arbennig yn rhoi cyfle i ddiogelu tirwedd o arwyddocâd lleol sy'n cael ei gwerthfawrogi am ei agosrwydd at Landudno. Mae'r ardal dan bwysau o ganlyniad i ddatblygiad mewnlenwi gwasgaredig a dyluniad is-safonol ond mae gan y dirwedd gapasiti cyfyngedig ar gyfer newid neu newid cronnus pellach heb ddirywio cymeriad ac ansawdd y dirwedd yn sylweddol.<br><br>Mae gan y Gogarth a Phenrhyn y Creuddyn ei nodweddion a'i rhinweddau gweledol, diwylliannol, hanesyddol, daearegol ac ecolegol arwyddocaol ei hun felly byddai dynodiad hefyd yn amddiffyn y lleoliadau a'r golygfeydd i ac o ddynodiadau tirwedd statudol eraill a byddai felly'n cyfrannu at ac yn gwella polisïau tirwedd dynodiad cyfagos. |
| **Angen am eglurder mewn cyfyngiadau polisi**<br>Bydd dynodi'r ardal fel ATA yn canolbwyntio amcanion polisi cynllunio ac yn nodi cyfyngiadau polisi yn yr ardal. Ar hyn o bryd defnyddir Cynllun Ardal Llandudno/Conwy 1982 yn y broses rheoli datblygu. Ynddi mae Ardal Cadwraeth Tirwedd sy'n cwmpasu pobman y tu allan i ffiniau'r aneddiadau dynodedig. Bydd yr Ardal Tirwedd Arbennig arfaethedig yn cynnig mwy o ffocws ar ddiogelu tirwedd a byddai'n ystyriaeth berthnasol ar gyfer gwrthod ceisiadau cynllunio.<br><br>Mae'r ATA yn gydnaws â chymeriad a rhinweddau nodedig y dirwedd leol a bydd yn cynorthwyo i ddiogelu hynodrwydd a gwerth y dirwedd wrth ganiatáu i newid priodol gael ei wneud. |

**Rheoli a Hyrwyddo Penodol**
Mae dynodiad yr ATA yn codi ymwybyddiaeth o nodweddion, rhinweddau a phwysigrwydd arbennig tirwedd a werthfawrogir yn lleol fel y gellir ei hyrwyddo fel offeryn rheoli cadarnhaol a bod modd llunio canllawiau penodol i lywio cynigion datblygu yn y dyfodol. Mae hefyd yn codi ymwybyddiaeth a chydnabyddiaeth am dirwedd werthfawr o fewn ardal sydd eisoes wedi'i nodi fel un bwysig oherwydd ei gwerth ecolegol.

**Cydlyniad**

Yna mae ardal yn seiliedig ar nodwedd ddaearegol nodedig a'i chyffiniau a bydd yr ardal yn sail i ganllawiau dylunio penodol. Mae'r ATA hwn yn cynnwys y ffabrig LANDMAP canlynol:

**Uchel:**
Tirwedd Ddaearegol: CNWGL010
Gweledol a Synhwyrol: CNWVS022, CNWVS063

**Eithriadol:**
Tirwedd Hanesyddol: CNWHL027, CNWHL054, CNWHL065
Tirwedd Ddaearegol: CNWGL011, CNWGL014, CNWGL013
Cynefinoedd Tirwedd: CNWLH017, CNWLH021, CNWLH026
Tirwedd Ddiwylliannol: CNWCL008, CNWCL010, CNWCL016

## 3.2 Cefnwlad Abergele

**Angen**
Mae'r ardal yn dirwedd bwysig yn lleol ac mae ganddi nodweddion a rhinweddau cynefin gweledol, diwylliannol a thirwedd o'r fath grynodiad ac arwyddocâd yn y cyd-destun lleol fel ei bod yn deilwng o'i hadnabod fel Ardal Tirwedd Arbennig. Mae'r ardal yn cynnwys sawl haen agwedd uchel mewn crynodiad amlwg felly mae gofyniad i ddiogelu cadwraeth tirwedd o brinder nodedig sy'n ychwanegu at unigrywiaeth ac amrywiaeth lleol neu ranbarthol. Mae'r Cyngor yn ystyried bod amddiffyniad effeithiol yr ardal yn bwysig yn lleol ac yn ategu'r dynodiadau eraill hynny fel Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a Safleoedd Geoamrywiaeth Pwysig y Rhanbarth (RIGS). Mae'r ardaloedd hyn hefyd wedi'u hamddiffyn rhag mewnlenwi a gorlethu gwasgaredig i'r gefnwlad wledig mor agos at ardal drefol yr arfordir. Heb Ardal Tirwedd Arbennig neu gydnabyddiaeth debyg, byddai'r ardal yn cael ei dosbarthu fel cefn gwlad agored ac yn cael ei hasesu gan bolisi sy'n seiliedig ar feini prawf.
Mae dynodiad fel Ardal Tirwedd Arbennig yn rhoi cyfle i ddiogelu'r ardal fel tirwedd arwyddocaol yn lleol sy'n cael ei gwerthfawrogi am ei than-ddatblygiad a'i hagosrwydd at y gwregys trefol arfordirol. Mae gan y dirwedd dan sylw gapasiti cyfyngedig ar gyfer newid neu newid cronnus pellach heb ddirywio'n sylweddol o ran cymeriad neu ansawdd ac felly mae o werth tirwedd lleol uchel.

**Angen am eglurder mewn cyfyngiadau polisi**
Mae angen dynodiad tirwedd arbennig i ganolbwyntio amcanion polisi cynllunio, nodi cyfyngiadau polisi sy'n berthnasol i'r ardal a rhoi mwy o bwyslais i ystyriaethau tirwedd wrth wneud penderfyniadau. Bydd y dynodiad Ardal Tirwedd Arbennig yn ystyriaeth berthnasol ar gyfer gwrthod ceisiadau cynllunio, ac mae'n ychwanegu mwy o bwyslais o ran gallu amddiffyn yr ardal rhag datblygiad amhriodol mewn ardal sy'n cael ei herio'n rheolaidd gan ddatblygiad oherwydd ei hapêl wledig tra mai dim ond pellter byr i ffwrdd o gysylltiadau allweddol ar hyd y llain arfordirol trefol ydyw.

| |
|---|
| **Rheoli a Hyrwyddo Penodol**<br>Mae dynodiad yr Ardal Tirwedd Arbennig yn codi ymwybyddiaeth o nodweddion, rhinweddau a phwysigrwydd arbennig tirwedd a werthfawrogir yn lleol fel y gellir ei hyrwyddo fel offeryn rheoli cadarnhaol a bod modd llunio canllawiau penodol i lywio cynigion datblygu yn y dyfodol. Mae hefyd yn codi ymwybyddiaeth a chydnabyddiaeth am dirwedd werthfawr o fewn ardal sydd eisoes wedi'i nodi fel ardal bwysig o werth hanesyddol a gweledol. Heb ddynodiad Ardal Tirwedd Arbennig ni fyddai modd gwahaniaethu gwerth y dirwedd a nodwyd trwy LANDMAP rhwng hyn a thirweddau gwerth is. |
| **Cydlyniad**<br>Er nad oes unrhyw haenau eithriadol, mae'r ardal yn cynnwys pob un o'r 5 haen agwedd uchel sy'n gorgyffwrdd yn bennaf. Mae'r ATA hwn yn cynnwys y ffabrig LANDMAP canlynol:<br>Uchel<br>Tirwedd Hanesyddol: CNWHL005, CNWHL074, CNWHL082<br>Tirwedd Ddaearegol: CNWGL083<br>Tirwedd Ddiwylliannol: CNWCL018<br>Gweledol a Synhwyrol: CNWVS008, CNWVS017, CNWVS075<br>Cynefinoedd Tirwedd: CNWLH063<br><br>Dim haenau amlwg. |

### 3.3 Dyffrynnoedd Elwy ac Aled

| |
|---|
| **Angen**<br>Mae'r ardal yn dirwedd bwysig yn lleol ym mhob haen tirwedd ac o rinweddau mor arwyddocaol yn y cyd-destun lleol fel ei bod yn deilwng o gael ei hadnabod fel Ardal Tirwedd Arbennig. Ychydig iawn o ddynodiadau tirwedd statudol eraill sy'n amddiffyn yr ardal. Nid yw dynodiad ACA Coedwig Dyffryn Elwy gerllaw wedi'i gynnwys yn ardal yr ATA yn seiliedig ar y meini prawf a ddefnyddir ond mae gan hon ei statws gwarchodedig Ewropeaidd ei hun yn seiliedig ar werth cynefin. |
| **Angen am eglurder mewn cyfyngiadau polisi**<br>Mae angen ATA i ganolbwyntio amcanion polisi cynllunio, nodi cyfyngiadau polisi sy'n berthnasol i ardal benodol a rhoi mwy o bwyslais i ystyriaethau tirwedd wrth wneud penderfyniadau. Bydd y dynodiad ATA yn ystyriaeth berthnasol ar gyfer gwrthod ceisiadau cynllunio amhriodol.<br><br>Mae ardaloedd y dyffrynnoedd yn unigryw yn y Sir sy'n gyfoethog o ran cynefinoedd a gwerth daearegol. Heb ddynodiad Ardal Tirwedd Arbennig ni fyddai modd gwahaniaethu gwerth y dirwedd a nodwyd trwy LANDMAP rhwng hyn a thirweddau gwerth is. |
| **Rheoli a Hyrwyddo Penodol**<br>Mae dynodiad yr ATA yn codi ymwybyddiaeth o nodweddion, rhinweddau a phwysigrwydd arbennig tirwedd a werthfawrogir yn lleol fel y gellir ei hyrwyddo fel offeryn rheoli cadarnhaol a bod modd llunio canllawiau penodol i lywio cynigion datblygu yn y dyfodol. Mae hefyd yn codi ymwybyddiaeth a chydnabyddiaeth am dirwedd werthfawr o fewn ardal sydd eisoes wedi'i nodi fel ardal ecolegol bwysig. |
| **Cydlyniad**<br>Mae'r ATA hwn yn cynnwys y ffabrig LANDMAP canlynol:<br><br>Uchel:<br>Tirwedd Hanesyddol: CNWHL013, CNWHL030, CNWHL077, CNWHL080.<br>Tirwedd Ddaearegol: CNWGL047, CNWGL046, CNWGL050, CNWGL045, CNWGL049.<br>Tirwedd Ddiwylliannol: CNWCL012, CNWCL019<br>Gweledol a Synhwyrol: CNWVS020, CNWVS021, CNWVS066 |

| |
|---|
| Eithriadol:<br>Cynefin Tirwedd: CNWLH039, CNWLH040, CNWLH064<br>Tirwedd Ddiwylliannol: CNWCL003. |

## 3.4 Hiraethog

| |
|---|
| **Angen**<br>Mae'r ardal yn dirwedd bwysig yn lleol ac mae ganddi nodweddion a rhinweddau gweledol, diwylliannol, hanesyddol, daearegol ac ecolegol o'r fath grynodiad yn y cyd-destun lleol fel ei bod yn deilwng o'i hadnabod fel Ardal Tirwedd Arbennig. Mae dynodiadau Ewropeaidd eraill gan gynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ond mae'r Cyngor yn ystyried bod amddiffyniad effeithiol o'r ardaloedd o'u cwmpas yn bwysig yn lleol o ran gwerth y dirwedd ac yn ategu'r dynodiadau eraill hynny. Mae'r ardal hon hefyd wedi cael ei hamddiffyn rhag datblygiadau amhriodol, yn enwedig datblygiadau tyrbinau gwynt sylweddol, er budd y dirwedd weledol ac ecoleg. Mae Hiraethog wedi'i orchuddio'n helaeth gan Ardal Tirwedd Arbennig a rhostir a glaswelltir heb ei wella ond mae hefyd yn ardal allweddol ar gyfer twristiaeth gyda llwybrau cerdded a chysylltiadau â chronfeydd dŵr Llyn Brenig a Llyn Aled sydd wedi'u lleoli i'r gorllewin o'r Ardal Tirwedd Arbennig.<br><br>Mae'r math o dirwedd yn brin yn lleol ac yn rhanbarthol. Felly mae gofyniad i ddiogelu cadwraeth tirwedd o brinder nodedig sy'n ychwanegu at unigrywiaeth ac amrywiaeth lleol neu ranbarthol. |
| **Angen am eglurder mewn cyfyngiadau polisi**<br>Mae'r ardal yn dirwedd bwysig yn lleol ym mhob haen tirwedd ac o rinweddau mor arwyddocaol yn y cyd-destun lleol fel ei bod yn deilwng o gael ei hadnabod fel Ardal Tirwedd Arbennig. Mae dynodiad fel ATA yn rhoi cyfle i ddiogelu tirwedd o arwyddocâd lleol sy'n cael ei gwerthfawrogi am ei harddwch naturiol dan bwysau gan ddatblygiad, yn enwedig ar gyfer tyrbinau gwynt. Mae gan y dirwedd dan sylw gapasiti cyfyngedig ar gyfer newid neu newid cronnus pellach heb ddirywio'n sylweddol o ran cymeriad, ansawdd ac felly gwerth tirwedd leol. Mae hefyd yn ardal y gellir ei gweld o olygfeydd o fewn Parc Cenedlaethol Eryri.<br><br>Heb ddynodiad ATA ni ellid gwahaniaethu rhwng gwerth y dirwedd a nodwyd trwy LANDMAP a thirweddau gwerth is ac yn llai amddiffynadwy yn erbyn ffurfiau amhriodol o ddatblygiad. |
| **Rheoli a Hyrwyddo Penodol**<br>Bwriad y dynodiad ATA yw codi ymwybyddiaeth o nodweddion, rhinweddau a phwysigrwydd arbennig tirwedd o werth lleol fel y gellir ei hyrwyddo fel offeryn rheoli cadarnhaol ar gyfer cynlluniau rheoli tirwedd wedi'u targedu gyda chysylltiadau cyflenwol â mentrau twristiaeth a mynediad eraill. Bydd hyn yn codi ymwybyddiaeth a chydnabyddiaeth am y dirwedd werthfawr y tu allan i ardaloedd a ddynodwyd yn genedlaethol. |

**Cydlyniad**
Mae'r ATA hwn yn cynnwys y ffabrig LANDMAP canlynol:
Uchel

Tirwedd Ddaearegol: CNWGL096
Tirwedd Ddiwylliannol: CNWCL020
Gweledol a Synhwyrol: CNWVS003, CNWVS046, CNWVS071
Cynefin Tirwedd: CNWLH071

Eithriadol:
Tirwedd Hanesyddol: CNWHL047
Cynefin Tirwedd: CNWLH053
Tirwedd Ddiwylliannol: CNWCL021

## 3.5 Cerrigydrudion a choridor yr A5

**Angen**
Mae'r ardal yn dirwedd bwysig yn lleol ac mae ganddi nodweddion gweledol, daearegol a hanesyddol gwerth uchel a rhinweddau diwylliannol eithriadol, felly mae o'r fath arwyddocâd yn y cyd-destun lleol fel ei bod yn deilwng o'i hadnabod fel Ardal Tirwedd Arbennig. Mae dynodiadau Ewropeaidd eraill, gan gynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, yn yr ardal ond mae'r Cyngor yn ystyried bod amddiffyniad effeithiol o'r ardaloedd o'u cwmpas yn bwysig yn lleol ac yn ategu dynodiadau eraill. Mae'r ardal hon hefyd wedi cael ei hamddiffyn rhag datblygiadau amhriodol, yn enwedig datblygiadau tyrbinau gwynt sylweddol, er budd y dirwedd ac ecoleg. Mae'r math o dirwedd yn brin yn lleol ac yn rhanbarthol. Felly mae gofyniad i ddiogelu cadwraeth tirwedd o brinder nodedig sy'n ychwanegu at unigrywiaeth ac amrywiaeth lleol neu ranbarthol.

**Angen am eglurder mewn cyfyngiadau polisi**
Mae'r ardal yn dirwedd bwysig yn lleol ym mhob haen tirwedd ac o rinweddau mor arwyddocaol yn y cyd-destun lleol fel ei bod yn deilwng o gael ei hadnabod fel Ardal Tirwedd Arbennig.
Heb ddynodiad Ardal Tirwedd Arbennig ni fyddai modd gwahaniaethu gwerth y dirwedd a nodwyd trwy LANDMAP rhwng hyn a thirweddau gwerth is. Mae'r ardal hon yn bwynt mynediad allweddol i'r sir ar hyd yr A5 ac mae'n llwybr hanesyddol trwy dirwedd wledig Conwy.

**Rheoli a Hyrwyddo Penodol**
Mae dynodiad yr ATA yn codi ymwybyddiaeth o nodweddion, rhinweddau a phwysigrwydd arbennig tirwedd a werthfawrogir yn lleol fel y gellir ei hyrwyddo fel offeryn rheoli cadarnhaol a bod modd llunio canllawiau penodol i lywio cynigion datblygu yn y dyfodol. Mae hefyd yn codi ymwybyddiaeth a chydnabyddiaeth o dirwedd werthfawr o fewn ardal sydd eisoes wedi'i nodi fel ardal dirwedd gyfoethog yn ddiwylliannol.

**Cydlyniad**
Mae'r ATA hwn yn cynnwys y ffabrig LANDMAP canlynol:
**Uchel**
Tirwedd Hanesyddol: CNWHL045
Tirwedd Ddaearegol: CNWGL101, CNWGL102
Gweledol a Synhwyrol: CNWVS006, CNWVS013, CNWVS050, CNWVS078
Cynefin Tirwedd: CNWLH086

**Eithriadol:**
Tirwedd Ddiwylliannol: CNWCL027

## 3.6 Dyffryn Conwy

**Angen**
Mae'r ardal yn dirwedd bwysig yn lleol ym mhob haen agwedd ac o'r fath ansawdd a chrynodiad yn y cyd-destun lleol fel ei bod yn deilwng o'i hadnabod fel Ardal Tirwedd Arbennig. Mae'r ardal hefyd dan bwysau oherwydd datblygiad gwledig gwasgaredig yn enwedig oherwydd datblygiad carafanau sefydlog/cabannau mewn lleoliadau gwael oherwydd gwendid polisi lleol yn y gorffennol. Mae'r ardal yn bwynt mynediad allweddol i Barc Cenedlaethol Eryri ac yn ffordd o'i gyrraedd ar hyd Dyffryn Conwy. Mae angen cadw golygfeydd a thrin y dirwedd yn barchus er mwyn peidio â diraddio'r rhinweddau a'r golygfeydd presennol.

Mae dynodiadau eraill yn yr ardal megis y Parth Dylanwad Gweledol ar gyfer safle Treftadaeth y Byd o amgylch Castell Conwy, polisi Parth Arfordirol NTE/6, dynodiad SoDdGA i aber Conwy a system afonydd llanw, a lletemau gwyrdd, ond nid oes dynodiad tirwedd cadarn ar hyn o bryd. Mae'r math o dirwedd yn unigryw yn lleol ac yn rhanbarthol. Felly mae gofyniad i ddiogelu cadwraeth tirwedd o brinder nodedig sy'n ychwanegu at unigrywiaeth ac amrywiaeth lleol neu ranbarthol.

Mae dynodiad fel Ardal Tirwedd Arbennig yn rhoi cyfle i ddiogelu tirwedd o arwyddocâd lleol sy'n cael ei gwerthfawrogi am ei agosrwydd at dref Conwy a Safle Treftadaeth y Byd Castell Conwy mewn lleoliad unigryw i Ardal Tirwedd Arbennig sydd, fel ardal ddeniadol, dan bwysau am ddatblygiad amhriodol. Mae gan y dirwedd dan sylw gapasiti cyfyngedig ar gyfer dirywiad newid cronnus pellach heb ddirywio'n sylweddol o ran cymeriad, ansawdd a golygfeydd lleol, felly mae o werth tirwedd lleol.

| |
|---|
| **Angen am eglurder mewn cyfyngiadau polisi**<br>Mae ardal dyffryn Conwy wedi dioddef o ddibyniaeth ar ddogfennau polisi lleol sydd wedi dyddio ac a oedd â diffyg manylion a chadernid. Y prif fygythiad yw datblygiad ymwthiol gweledol mewn amgylchedd naturiol fel arall o goetir, coedwigaeth a thir fferm, gan gynnwys nodweddion tirwedd nentydd mynydd, waliau cerrig a glaswelltir wedi'i led-wella. Mae golygfeydd yn elfen bwysig i'r ardal a'i dull o ymdrin ag Ardal Tirwedd Arbennig, Castell Conwy ac ucheldiroedd ehangach Conwy. Bydd rhyngweledêdd rhwng Ardaloedd Tirwedd Arbennig eraill a Pharc Cenedlaethol Eryri hefyd yn ystyriaeth yn y dyfodol. Bydd amddiffyn yr ardal rhag datblygiad tyrbinau gwynt amhriodol hefyd yn amcan allweddol yn y dyfodol. |
| **Rheoli a Hyrwyddo Penodol**<br>Bwriad y dynodiad Ardal Tirwedd Arbennig yw codi ymwybyddiaeth o nodweddion, rhinweddau a phwysigrwydd arbennig tirwedd sy'n cael ei gwerthfawrogi'n lleol fel y gellir ei hyrwyddo fel offeryn rheoli cadarnhaol i sicrhau bod dylunio a thrin tirwedd o safon yn rhan allweddol o unrhyw ddatblygiad. Er bod twristiaeth yn allweddol i'r ardal a bydd angen i gysylltiadau â datblygiad Ardal Tirwedd Arbennig yn yr ardal hon fod o ansawdd eithriadol sy'n ategu'r lleoliad a'r haen(au) agwedd benodol y mae wedi'i leoli ynddynt. |
| **Cydlyniad**<br>Mae'r ATA hwn yn cynnwys y ffabrig LANDMAP canlynol:<br>**Uchel:**<br>Tirwedd Hanesyddol: CNWHL060, CNWHL061, CNWHL064, CNWHL069, CNWHL071<br>Tirwedd Ddaearegol: CNWGL039, CNWGL029, CNWGL032, CNWGL040, CNWGL110, CNWGL056, CNWGL034, CNWGL059<br>Gweledol a Synhwyrol: CNWVS018, CNWVS058, CNWVS064, CNWVS067, CNWVS073, CNWVS074.<br>Cynefin Tirwedd: CNWLH027, CNWLH050, CNWLH054, CNWLH087.<br><br>**Eithriadol:**<br>Tirwedd Hanesyddol: CNWHL066, CNWHL068<br>Tirwedd Ddaearegol: CNWGL028, CNWGL058<br>Gweledol a Synhwyrol: CNWVS015 |

## 4. Pwrpas Polisi NTE/4

4.1 Bydd angen Datganiad o Effaith ATA ar gyfer pob datblygiad y tu allan i ffiniau'r anheddiad fel y'u diffinnir ar y mapiau cynigion a phob datblygiad dros 15 o anheddau neu 0.5 hectar y tu mewn i ffiniau'r anheddiad. Gellir ymgorffori hyn yn y Datganiad Dylunio a Mynediad yn ddelfrydol neu fel dogfen ar wahân sy'n archwilio'r rhesymeg ddylunio a'r ymatebolrwydd i'r ATA y mae wedi'i leoli ynddynt. Disgwylir i Ddatganiad o Effaith ATA gyfeirio'n ôl at wybodaeth LANDMAP a darparu manylion ynghylch pa un o'r pum agwedd ar gymeriad y dirwedd sy'n cael ei heffeithio a sut mae'r datblygiad yn mynd i'r afael ag unrhyw effaith.

4.2 Dylai integreiddio unrhyw ddatblygiad o fewn y dirwedd hefyd ystyried elfennau'r dirwedd, fel waliau, coed neu wrychoedd sy'n bwysig i gymeriad y dirwedd a dylid eu cadw. Ni chaniateir datblygiad na ellir ei integreiddio'n sensitif ac yn ddisylw i'r dirwedd, ac a fyddai'n niweidiol i'r parth cymeriad tirwedd penodol. Mewn rhai

achosion, gall y datblygiad arfaethedig elwa o gael ei dirlunio, mewn modd sy'n gydnaws â'r ardal leol, er mwyn lleihau ei effaith

## 5. Cysondeb ag Awdurdodau Cyfagos

Mae Conwy yn rhannu ffiniau awdurdod gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE) a Chyngor Sir Dinbych. Mae rhan arfordirol fach iawn yn cael ei rhannu gyda Chyngor Sir Gwynedd i'r gorllewin o Lanfairfechan.

### CDLl Eryri 2011

Mae Parc Cenedlaethol Eryri yn defnyddio LANDMAP i lywio Ardaloedd Cymeriad Tirwedd gyda dyheadau Cynllun Rheoli penodol sy'n ymwneud â phob ACT. Mae 3 ACT sy'n ffinio'n uniongyrchol â Bwrdeistref Sirol Conwy. Mae'r rhain ynghyd â dyheadau'r Cynllun Rheoli yn cynnwys:

| Ardal Cymeriad Tirwedd Parc Cenedlaethol Eryri gydag amcanion rheoli: | Sylwadau CBSC |
|---|---|
| **LCA1 – Carneddau**<br><u>Amcanion Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol</u><br>Amcan 5a: Hyrwyddo cysylltedd ecolegol.<br>Amcan 8: Diogelu a gwella tirweddau a mathau o gymeriad nodedig.<br>Amcan 11b: Deall gwerth, diogelu a gwella adeiladau, safleoedd a thirweddau rhestredig.<br>Amcan 12: Deall gwerth, amddiffyn a gwella safleoedd, strwythurau a'r amgylchedd hanesyddol ehangach nad ydynt wedi'u rhestru.<br>Amcan 19: Hyrwyddo'r defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy i ymwelwyr.<br>Amcan 21: Hyrwyddo twf economaidd yn y sectorau nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol. | Ystyrir nad oes unrhyw oblygiadau negyddol ar amcanion cynllun rheoli PCE o ganlyniad i CDLl Conwy. Mae cyswllt rheolaidd rhwng adrannau cynllunio a chyswllt a ymgynghoriad trawsffiniol ar gynigion yn agos at ffin pob awdurdod. |
| **LCA6 - Coed Gwydyr**<br><u>Amcanion Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol</u><br>Amcan 1c: Rheoli effeithiau newid hinsawdd trwy effeithlonrwydd ynni a dylunio da.<br>Amcan 2: Hyrwyddo dylunio cynaliadwy o ansawdd da mewn adeiladau newydd a phresennol.<br>Amcan 5: Hyrwyddo cysylltedd ecolegol.<br>Amcan 8: Diogelu a gwella tirweddau a mathau o gymeriad nodedig.<br>Amcan 19: Darparu'r defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy i ymwelwyr.<br>Amcan 24: Darparu a gwella gwasanaethau trafnidiaeth gynaliadwy.<br>Amcan 25: Lleihau pwysau traffig a pharcio. | Nid oes unrhyw ddyraniadau gerllaw'r ardal hon ac mae datblygiad o fewn Bwrdeistref Sirol Conwy wedi'i gyfyngu gan risg llifogydd a thopograffeg. Felly bydd aneddiadau cyffredin Trefriw a Dolgarrog yn cael eu hehangu'n bennaf o fewn rhan APCE o'r anheddiad. Mae CDLl Conwy yn cefnogi datblygiad twristiaeth yn yr ardal sy'n hyrwyddo gwelliant trawsffiniol i wasanaethau, mynediad a |

| | |
|---|---|
| | chyfleusterau. |
| **LCA8 - Migneint**<br>Amcanion Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol<br>Amcan 5: Hyrwyddo cysylltedd ecolegol.<br>Amcan 8: Diogelu a gwella tirweddau a mathau o gymeriad nodedig.<br>Amcan 19: Hyrwyddo'r defnydd o drafnidiaeth gynaliadwy i ymwelwyr.<br>Amcan 24: Darparu a gwella gwasanaethau trafnidiaeth gynaliadwy.<br>Amcan 25: Lleihau pwysau traffig a pharcio. | Mae'r Migneint wedi'i diogelu'n rhannol fel ACA ac AGA. Mae'n gorwedd i'r de o Ardal y Cynllun ymhell o unrhyw ddatblygiad arfaethedig. Byddai datblygiad tyrbinau gwynt yn cael ei annog o fewn neu gerllaw'r ardal hon. Bydd y ddau Awdurdod yn ymgynghori â'i gilydd ar unrhyw gynnig y bernir bod ganddo effaith drawsffiniol. |

Er bod dull gwahanol wedi'i gymryd i gysylltu â Chynllun Rheoli PCE, ni ystyrir bod yr amcanion yn cael eu heffeithio gan y rhai yng Nghonwy sy'n ymwneud â'i Ardaloedd Tirwedd Arbennig ei hun neu unrhyw effeithiau negyddol mewn cyfuniad. Mae effeithiau ar bob Safleoedd a ddiogelir dan gyfraith Ewrop, gan gynnwys y rhai mewn ardaloedd cyfagos, wedi'u hasesu yn PC12/Gwerthusiad Rheoliadau Cynefinoedd.

**CDLl Sir Ddinbych 2011**

Mae Cyngor Sir Dinbych wedi defnyddio polisïau gwarchod tirwedd presennol yn eu CDLl a gyflwynwyd:

| **Polisi VOE 1 – Ardaloedd allweddol o warchodaeth** | **Sylwadau CBSC** |
|---|---|
| Bydd yr ardaloedd canlynol yn cael eu gwarchod rhag datblygiad amhriodol a, lle bynnag y bo modd, eu gwella am eu nodweddion penodol, a'u gwerth i gymunedau lleol yn Sir Ddinbych: | Amherthnasol |
| i) Safleoedd dynodedig statudol ar gyfer cadwraeth natur; | Nid yw CBS Conwy yn bwriadu datblygu na chael effaith negyddol ar unrhyw safle dynodedig ar gyfer cadwraeth natur. |
| ii) Ardaloedd Lleol a ddynodwyd/ neu a nodwyd oherwydd eu tirwedd, bioamrywiaeth, geoamrywiaeth, archaeolegol, a / neu werth amaethyddol; | Dim effaith o ganlyniad i CDLl Conwy. |
| iii) Mannau agored cyhoeddus ffurfiol a chyfleusterau hamdden; | Dim effaith o ganlyniad i CDLl Conwy. |
| iv) Tir ac adeiladau cyflogaeth Safleoedd treftadaeth adeiledig, tirweddau hanesyddol, parciau a gerddi hanesyddol; | Dim effaith o ganlyniad i CDLl Conwy. |
| v) Tir maes glas o fewn gorlifdir diffiniedig. | Dim effaith o ganlyniad i CDLl Conwy. |
| vi) Tir wedi'i ddynodi ar gyfer defnydd cymunedol | Dim effaith o ganlyniad i CDLl Conwy. |

| Polisi VOE 2 - Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol. | |
|---|---|
| Wrth benderfynu ar gynigion Datblygu o fewn neu sy'n effeithio ar yr Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) ac Ardal o Harddwch Eithriadol (AHE), bydd yn cael ei gefnogi lle na fyddai unrhyw ddatblygiad a fyddai'n achosi niwed annerbyniol i gymeriad ac ymddangosiad y dirwedd ac ar yr amod bod y datblygiad yn dderbyniol o ran polisïau eraill y Cynllun Datblygu Lleol. | Mae'r AHNE wedi'i lleoli 10km o ffin Awdurdod Conwy/Sir Ddinbych, felly ni fydd y dynodiad ATA agosaf yn peri unrhyw fygythiad i'r AHNE mewn unrhyw ffordd. Mae polisïau eraill wedi'u hasesu trwy'r HRA yn PC11. |

## 6. Casgliadau a Chrynodeb

Mae'r dull a gymerwyd ar gyfer ATA yn darparu methodoleg wedi'i mireinio wrth ddefnyddio LANDMAP i lywio a nodi ATA penodol. Defnyddiwyd y dull hwn yn y CDLl blaenorol. Mae'r astudiaeth wedi nodi 6 maes allweddol lle mae sawl haen o ddata LANDMAP yn gorgyffwrdd gan nodi felly'r ardaloedd o'r pwys mwyaf. Mae hyn yn cynnig dull cadarn o asesu safleoedd a diogelu tirwedd.

Mae'r Cyngor wedi dibynnu ar ddogfennau polisi sydd wedi dyddio yn y gorffennol ac mae hyn wedi arwain at ddatblygiad gwasgaredig ac analluu i amddiffyn penderfyniadau yn seiliedig ar werth tirwedd. Ymgynghorodd y Cyngor ag awdurdodau cyfagos i benderfynu a oes unrhyw faterion trawsffiniol pellach wedi'u nodi ac mae'r ddau awdurdod yn fodlon y bydd y cynigion yn cael effeithiau cadarnhaol o ran unrhyw effeithiau trawsffiniol. Amlinellir y polisi arfaethedig yn Atodiad 1 ac mae'r mapiau ar gael ar wefan y CDLlN.

## 7. Darllen pellach a gwybodaeth

- PC27 Blaenorol/ Ardaloedd Tirwedd Arbennig

https://www.conwy.gov.uk/cy/Resident/Planning-Building-Control-and-Conservation/Strategic-Planning-Policy/Adopted-Local-Development-Plan-LDP/Evidence-Base/Natural-Environment/PC27-Special-Landscape-Areas.pdf.

- CNC- Landmap: www.landmap.ccw.gov.uk
- LANDMAP ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig, CCGC, 2008.
- Comisiwn Dylunio Cymru: www.dcfw.org
- Cabe Space: www.cabe.org.uk
- Canllawiau Cynllunio Atodol Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy: www.conwy.gov.uk
- Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, Canllawiau Cynllunio Atodol – Tirwedd, Mehefin 2011.

## Atodiad 1

Mae'r polisi canlynol fel y mae'n ymddangos yn y CDLl Newydd 2018-33 a bydd yn disodli polisi tebyg blaenorol:

**NE/4 Diogelu Ardaloedd Tirwedd Arbennig**

1. Rhoddir pwysau sylweddol ar warchod, gwella a rheoli cymeriad, edrychiad ac ansawdd yr Ardaloedd Tirwedd Arbennig a'u gosodiad wrth asesu a chydbwyso cynigion datblygu o fewn neu gerllaw'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig, fel y dangosir ar y Map Cynigion a restrir isod:

   a) Y Gogarth a Phenrhyn y Creuddyn

   b) Dyffryn Conwy

   c) Cefn gwlad Abergele

   d) Dyffrynnoedd Elwy ac Aled

   e) Mynydd Hiraethog

   f) Cerrigydrudion a choridor yr A5

2. Er mwyn gwarchod nodweddion yr Ardaloedd Tirwedd Arbennig neu eu gosodiad, rhaid i gynigion datblygu roi sylw arbennig i gadw neu wella cymeriad, edrychiad ac ansawdd pob Ardal Tirwedd Arbennig. Ni fydd datblygiad sy'n methu integreiddio yn foddhaol i'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig neu ddiogelu eu lleoliad yn cael ei ganiatáu. Mewn achosion priodol, bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn gofyn am gyflwyno Asesiad Tirwedd ac Effaith Weledol i ddangos effaith y cynigion datblygu o fewn neu'r tu allan i'r Ardaloedd Tirwedd Arbennig.